

Bwriwch olwg fanylach ar... FWSOGI

Mae mwsoglau yn rhyfeddol. Nhw yw'r planhigion tir hynaf ar y Ddaear, ac maen nhw wedi bod o gwmpas am 400 miliwn o flynyddoedd neu ragor - ymhell cyn dyddiau'r dinosoriaid! Maen nhw'n gartref i lawer o greaduriaid mân, a nhw yn aml yw'r cyntaf i ymddangos ar bridd a chreigiau noeth, gan gynnig troedle llaith i lawer o blanhigion eraill. Mae mwsoglau yn cynhyrchu sborau microsgopig yn hytrach na hadau.

Edrychwch yn ofalus ac efallai y gwelwch y capsïwlau bychain sy'n dal y sborau. Gall mwsoglau, sy'n sensitif i lygredd, ein helpu i fonitro cyflwr ein hamgylchedd.

- Gall rhai mwsoglau oroesi am wythnosau heb ddŵr ac yna'i amsugno fel sbwng pan mae'n bwrw – gall migwyn amsugno hyd at 25 gwaith ei bwysau ei hun!
- Gwneir rhai mathau o gompost gardd o weddillion migwyn a ffurfiodd dros filoedd o flynyddoedd mewn mawnogydd. Mae mawnogydd yn diflannu – gallwn helpu trwy ddefnyddio compost heb fawn.
- Gan eu bod yn feddal ac amsugol, defnyddiwyd mwsoglau yn draddodiadol yn ddefnydd sarn, padio a deunyddiau pecynnu.
- Nid oes gwreiddiau gan fwsoglau - maen nhw'n cydio eu hunain wrth arwynebau trwy edeifion brown cywrain o'r enw gwreiddflew.
- Mae gan figwyn rinweddau gwrthseptig ysgafn ac fe'i defnyddid yn y Rhyfel Byd Cyntaf i drin clwyfau.

Ewch i Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru i ddysgu mwy am fwsogl yng Nghymru a gwefan y Cyngor i gael gwybod mwy am fywyd gwyllt rhyfeddol Sir Gaerfyrddin



Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin
Carmarthenshire Biodiversity Partnership



Codemau mwsogi



Migwyn

